**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 25 Awst 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | L S Gibbard | J A Hale |
| D W Helliwell | T J Hennegan | P K Jones |
| W G Lewis | W G Thomas | T M White |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**
D Anderson-Thomas

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| C A Holley | L R Jones |
| P R Hood-Williams | J W Jones |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Rob Stewart | Arweinydd/ Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth |
| Y Cynghorydd Clive Lloyd | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal i Oedolion ac Iechyd Cymunedol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151. |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, E T Kirchner a/ac G J Tanner

---

**144 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd C A Holley – personol - Cofnod Rhif 149 - Mae ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 145 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 146 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.

## 147 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 148 Diweddariad am yr Ymateb i COVID-19 a'i Adferiad.

Roedd yr Arweinydd/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Dirprwy Brif Swyddog Cyllid yn bresennol i'r Pwyllgor ystyried ymateb y cyngor i bandemig COVID-19 a chynllunio ar gyfer adferiad.

Arweiniodd y Prif Weithredwr y gwaith o gyflwyno gwybodaeth i'r pwyllgor, a oedd yn canolbwyntio ar yr adferiad ac yn cynnwys: -

- Economi'r ddinas
    - Ymagwedd ranbarthol drwy'r cytundeb twf
    - Rhaglen Adfywio yn parhau
    - Effeithiau ar sectorau
- Cefnogi busnes
- 3 cham y cynllun adfer: Ailddechrau, Ail-lunio, Adfywio
- Llinell amser – Rhagwelwyd y byddai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynllun adfer ar ddiwedd Medi/dechrau mis Hydref
- Ffrydiau gwaith
    - Gwasanaethau Gofal
    - Addysg a Dysgu
    - Gweithlu'r Dyfodol
    - Cydraddoldebau
    - Cefnogaeth y gymuned
    - Yr Economi a'r Amgylchedd

Roedd cwestiynau a thrafodaethau ag Arweinydd a swyddogion yn canolbwyntio ar y canlynol:

Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (TTP)

- Staff a gyflogir yn y gwasanaeth TTP - 4 Arweinydd Clinigol cyfwerth ag Amser Llawn (FTE), 12 olrheiniwr cyfwerth ag amser llawn, 32 ymgynghorydd cyfwerth ag amser llawn, 5 Swyddog Iechyd yr Amgylchedd cyfwerth ag amser llawn sy'n cynnwys cymysgedd o secondeion a staff y GIG

- Mesur llwyddiant – roedd y ffigurau cyfredol yn fras. Olrheiniwyd 90% o fewn 24 awr (yn uwch na'r targed cenedlaethol), ond roedd nifer yr achosion yn isel.
- Profion a nifer y bobl sy'n cael eu profi – roedd tua 2-3% o'r profion yn gadarnhaol
- Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill
- Ymwybyddiaeth y cyhoedd o Brofi, Olrhain a Diogelu a chydymffurfiaeth
- Monitro pobl yr oedd angen iddynt hunanynysu
- Profi mewn cartrefi gofal

Cynllunio adferiad
- Ailddechrau gwasanaethau cyn belled ag y bo modd
- Gwneud y mwyaf o fuddsoddiad cyhoeddus i gefnogi cynllunio adferiad
- Denu buddsoddiad trydydd parti
- Adeiladu ymhellach ar y cydweithio rhagorol a gafwyd gyda phartneriaid ac asiantaethau eraill drwy gydol y pandemig
- Rhagolygon COVID-19 a allai effeithio ar gynllunio adferiad

Cymorth bwyd brys
- Anghenion a chymorth parhaus i geiswyr lloches a ffoaduriaid

Busnes ac economi
- Ad-dalu am arian sy'n cael ei wario ac incwm coll
- Cynlluniau i helpu busnesau - grantiau busnes, ffïoedd wedi'u hepgor ar gyfer defnyddio ardaloedd y tu allan, trwyddedau carlam ar gyfer defnyddio ardaloedd y tu allan, cyngor ar gyfer ailagor yn ddiogel
- Y sefyllfa bresennol gyda nifer yr ymwelwyr/adferiad manwerthu
- Cyflogi staff lleol a chwmnïau lleol yn natblygiad canol y ddinas, yn enwedig yr arena newydd
- Manteision cymunedol datblygiadau canol y ddinas
- Effaith gweithio gartref ar ganol y ddinas a'r galw am swyddfeydd
- Galw am lety myfyrwyr yn nghanol y ddinas a'r nifer sy'n manteisio arno
- Posibilrwydd o ymgorffori mannau gweithio ystwyth i staff mewn Canolfannau Cymunedol
- Y posibilrwydd o gau Swyddfeydd Tai Rhanbarthol – darpariaeth amgen o wasanaethau

Cyllid
- Effaith colli incwm – disgwylir ad-daliad gan Lywodraeth Cymru a chymorth ariannol i gynorthwyo adferiad
- Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

Yr amgylchedd
- Cyflwyno'r Rhaglen Seilwaith Gwyrdd i ardaloedd eraill yn Abertawe

**Penderfynwyd** y dylai cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ysgrifennu at yr Arweinydd, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 149 Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg - Trosolwg o'r Ymateb Rhanbarthol i COVID-19 sy'n canolbwyntio ar Gartrefi Gofal.

Roedd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd Cymunedol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol ar gyfer cyflwyniad 'Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg - Trosolwg o'r Ymateb Rhanbarthol i COVID gan ganolbwyntio ar Gartrefi Gofal'.

Edrychodd yr adroddiad ar yr ymateb rhanbarthol i COVID mewn cartrefi gofal yn seiliedig ar gyngor ac arweiniad sydd ar gael ar yr adegau perthnasol. Comisiynwyd yr adolygiad gan y Bartneriaeth Rhanbarthol. Mae'n ystyried gweithredu cyngor y llywodraeth a gwneud penderfyniadau partneriaeth, rheolaeth COVID mewn cartrefi gofal a diogelu, yn ogystal â heriau o fewn y bartneriaeth.

Tynnodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sylw at rai o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad gan gynnwys y pethau cadarnhaol a heriau'r Bartneriaeth. Nodwyd bod y cydweithio a'r gwaith partneriaeth yn gryfder penodol. Un her benodol oedd y gorddibyniaeth ar symptomoleg, ond erbyn hyn mae'n hysbys bod trosglwyddo asymptomatig yn broblem mewn lleoliadau caeëdig. Roedd rhagor o waith i'w wneud i gynllunio ar gyfer unrhyw gynnydd mewn achosion posib yn y dyfodol o ran COVID-19, ond hefyd roedd nifer o wersi wedi'u dysgu o'r profiad hyd yma.

Cwestiynau'n canolbwyntio ar: -

- Ffigurau'r rheini a oedd â COVID-19 – mae niferoedd amrywiol a newidiadau mewn ffyrdd o gofnodi ac amrywiadau eraill yn darparu gwahanol ffigurau.
- Pryder ynghylch rhyddhau'r rheini â COVID-19 o'r ysbyty a'r gwersi a ddysgwyd
- Amlder profi staff a phreswylwyr mewn cartrefi gofal a lefelau achosion

Mynegodd yr Aelod Cabinet ei ddiolch i holl staff mewnol ac allanol cartrefi gofal am eu gwaith caled.

Diolchwyd i Jack Straw, Cadeirydd Annibynnol y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Eithriadol, am ei waith ar yr adroddiad yn ogystal â'r Aelod Cabinet a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 150 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.00 pm

**Cadeirydd**